https://www.dysguiechydagofal.cymru/

# 8040-02 Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

## Adroddiad yr Arholwr Chwefror - Gorffennaf 2023

Fersiwn 1.0
Addaswyd diwethaf 2-Awst-2023

Sefydliad City and Guilds Llundain.
Ymgorfforwyd gan Siarter Frenhinol. Sefydlwyd yn 1878.
Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 312832 ac yn yr Alban SC039576.
Mae WJEC CBAC Cyf yn gwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 3150875) ac mae'n elusen gofrestredig (rhif 1073332)

## Hanes diwygio'r ddogfen

| Fersiwn | Wedi'i newid gan | Crynodeb o'r newid | Dyddiad cymeradwyo |
|---|---|---|---|
| 1.0 | Dogfen wedi'i chreu | Dogfen wedi'i chreu | 02.08.2023 |

Sefydliad City and Guilds Llundain.
Ymgorfforwyd gan Siarter Frenhinol. Sefydlwyd yn 1878.
Elusen Gofrestredig yng Nghymru a Lloegr 312832 ac yn yr Alban SC039576.
Mae WJEC CBAC Cyf yn gwmni cyfyngedig drwy warant, wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (rhif 3150875) ac mae'n elusen gofrestredig (rhif 1073332)

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ........ 2**

**2. Asesiadau Allanol ........ 3**

2.1. Marciau pasio ........ 3

2.2. Cyfraddau pasio ........ 3

2.3. Perfformiad unedau ar daws y gwahanol lwybrau ........ 4

**3. Asesiadau Mewnol ........ 7**

3.1. Meysydd ymarfer da ........ 7

3.2. Meysydd i’w gwella ........ 7

3.3. Pwyntiau i ganolfannau eu hystyried ........ 8

# 1. Cyflwyniad

Bwriedir i'r ddogfen hon gael ei defnyddio fel adnodd adborth i ganolfannau er mwyn gwella'r addysgu a'r paratoi ar gyfer yr 8040-02 Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Cynghorir iddynt gyfeirio at y ddogfen hon wrth baratoi i addysgu ac yna eto pan fydd ymgeiswyr yn paratoi i sefyll yr asesiad.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylwadau cyffredinol ar y marciau pasio a sut mae ymgeiswyr yn perfformio ym mhob un o'r profion. Mae'n tynnu sylw at themâu cyffredin mewn perthynas â'r agweddau technegol a gafodd eu harchwilio yn yr asesiadau ***rhwng 1 Chwefror 2023 a 31 Gorffennaf 2023.***

Ar gyfer y cyfnod adrodd hwn, dyma feintiau'r carfannau:

| Llwybr | Nifer yr Ymgeiswyr |
|---|---|
| Oedolion | 2427 |
| Plant a Phobl Ifanc | 306 |
| Cyfuniad | 419 |

# 2. Asesiadau Allanol

## 2.1. Marciau pasio

Mae marciau pasio yn cael eu pennu ar y safon perfformiad sylfaenol sy'n ofynnol er mwyn i'r ymgeisydd lwyddo. Defnyddir dull 'angoff' i sicrhau bod y marciau pasio sy'n cael eu pennu ar gyfer profion amlddewis mor ddiogel â phosibl. Yn bennaf, mae'n defnyddio barn Arbenigwyr Pwnc i ragweld gallu ymgeiswyr nad ydynt yn gymwys iawn i ateb pob cwestiwn yn gywir.

Mae gan bob fersiwn o'r asesiad ei farc pasio ei hun ac mae'n adlewyrchiad cywir o ystod o farn arbenigol.

| Llwybr | Ystod y marciau pasio | Allan o (cyfanswm y marciau): |
|---|---|---|
| Oedolion | 31-32 | 45 |
| Plant a Phobl Ifanc | 33 | 45 |
| Cyfuniad | 45-50 | 65 |

Cynhelir proses adolygu data reolaidd i sicrhau tegwch i bob ymgeisydd. Mae hyn yn cynnwys:

- adolygu ystadegau cymharol sy'n dangos sut mae pob asesiad yn perfformio ac
- adolygu eitemau prawf unigol nad ydynt yn perfformio yn ôl y disgwyl.

Mae'r adolygiad o ddata yn ystyried effaith materion sy'n ymwneud â pherfformiad eitemau neu fân wahaniaethau rhwng fersiynau o'r asesiad fel y gellir ystyried y rhain i sicrhau nad yw ymgeiswyr dan anfantais.


## 2.2. Cyfraddau pasio

Mae'r gyfradd pasio'n golygu sawl gwaith y mae asesiad penodol wedi cael ei basio, fel canran o nifer o weithiau y rhoddwyd cynnig ar yr asesiad hwnnw. Mae ymgeiswyr sy'n ail-sefyll asesiadau yn effeithio ar y ffigurau hyn a dylai canolfannau gadw hyn mewn cof wrth eu dehongli.

Efallai na fydd y gyfradd pasio a geir wrth gyflwyno prawf am y tro cyntaf wir yn dangos pa mor anodd yw'r prawf oherwydd efallai na fydd nifer yr ymgeisiau sydd wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad yn ddigon mawr ar gyfer dilysrwydd gwirioneddol ystadegau. Am y rheswm

hwn, bydd unrhyw gyfradd pasio yn 'giplun' o berfformiad yn seiliedig ar y data sydd ar gael ar adeg cyfrifo.

Mae'r cyfraddau pasio isod yn gyfraddau cronnol ar draws pob fersiwn ac iaith ar gyfer y cyfnod adrodd.




*Sylwer: Mae maint y garfan ar gyfer y llwybr Cyfun yn fach iawn o'i gymharu â'r llwybr Oedolion a'r llwybr Plant a Phobl Ifanc.*

## 2.3. Perfformiad unedau ar draws y gwahanol lwybrau

Mae'r canlynol yn dangos gwerth cyfleuster cronnol cyfartalog pob uned ar draws pob fersiwn. Gwerth y cyfleuster yw canran yr ymgeiswyr sy'n ateb y cwestiynau'n gywir.

### 2.3.1. Llwybr oedolion

| Teitl yr Uned | Nifer y cwestiynau yn y prawf | Gwerth cyfleuster cronnol cyfartalog ar draws pob fersiwn |
|---|---|---|
| 001 Egwyddorion a gwerthoedd (Oedolion) | 9 | 82 |
| 003 Iechyd a llesiant (Oedolion) | 11 | 84 |
| 005 Ymarfer proffesiynol | 8 | 74 |
| 006 Diogelu | 8 | 85 |
| 007 Iechyd a Diogelwch | 9 | 87 |

### 2.3.2. Llwybr Plant a Phobl Ifanc

| Teitl yr Uned | Nifer y cwestiynau yn y prawf | Gwerth cyfleuster cronnol cyfartalog ar draws pob fersiwn |
|---|---|---|
| 002 Egwyddorion a gwerthoedd (Plant a Phobl Ifanc) | 9 | 87 |
| 004 Iechyd a llesiant (Plant a Phobl Ifanc) | 11 | 88 |
| 005 Ymarfer proffesiynol | 8 | 91 |
| 006 Diogelu | 8 | 85 |
| 007 Iechyd a Diogelwch | 9 | 89 |

### 2.3.3. Llwybr cyfun

| Teitl yr Uned | Nifer y cwestiynau yn y prawf | Gwerth cyfleuster cronnol cyfartalog ar draws pob fersiwn |
|---|---|---|
| 001 Egwyddorion a gwerthoedd (Oedolion) | 9 | 79 |
| 002 Egwyddorion a gwerthoedd (Plant a Phobl Ifanc) | 9 | 78 |
| 003 Iechyd a llesiant (Oedolion) | 11 | 78 |
| 004 Iechyd a llesiant (Plant a Phobl Ifanc) | 11 | 80 |
| 005 Ymarfer proffesiynol | 8 | 76 |
| 006 Diogelu | 8 | 70 |
| 007 Iechyd a Diogelwch | 9 | 70 |

### 2.3.4. Meysydd ffocws

Mae'r canlyniadau canlynol wedi cael eu nodi fel meysydd lle byddai ymgeiswyr yn elwa o gael eu cyflwyno neu eu diwygio ymhellach

- 5.2 Gwybod sut mae datblygu a chynnal partneriaeth effeithiol drwy weithio gydag eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- 5.4 Gwybod sut i drin gwybodaeth
- 6.2 Deall sut mae gweithio mewn ffyrdd sy'n diogelu unigolion rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod
- 6.3 Deall y ffactorau, y sefyllfaoedd a'r gweithredoedd a allai arwain neu gyfrannu at niwed, camdriniaeth neu esgeulustod
- 7.5 Gwybod beth yw'r prif lwybrau at haint, a sut mae atal heintiau rhag lledaenu yn y gweithle
- 7.9 Gwybod sut mae rheoli straen

## 3. Asesiadau Mewnol

Mae’r canlynol yn ganlyniadau o Gymedroli Allanol/Samplo Sicrhau Ansawdd Allanol y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd

### 3.1. Meysydd ymarfer da

Mae canolfannau’n parhau i baratoi dysgwyr ar gyfer asesiad llawn y cymhwyster Craidd. Mae matricsau ymgeiswyr yn gywir ar y cyfan ac yn cyd-fynd â’r ffenestri ardystio.

Mae Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o’r wybodaeth a ddarperir gan Ganolfannau yn cofnodi’n gywir nifer y dysgwyr sy’n dilyn llwybrau asesu gwahanol, a phan ofynnir iddynt, yn darparu eglurhad pellach.

Mae Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn cadarnhau bod Canolfannau’n gyfarwydd â’r astudiaethau achos a’u bod yn defnyddio’r meini prawf marcio’n gyson, yn gyffredinol. Lle mae’r marciau wedi cael eu haddasu gan swyddogion sicrhau ansawdd mewnol, mae’r sail resymegol wedi cael ei chyfiawnhau.

Nododd Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol fod y dull samplu interim yn galluogi amrywiaeth ehangach o weithgareddau sicrhau ansawdd ac asesu mewnol er mwyn cynllunio ar gyfer samplu allanol. Mae hyn yn rhoi darlun mwy realistig o weithgareddau asesu’r Ganolfan. Mae Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn nodi bod y rhan fwyaf o Ganolfannau’n ymateb i adborth Sicrhau Ansawdd Allanol a bod gwelliannau cadarnhaol yn cael eu gwneud pan fydd cynlluniau gweithredu wedi cael eu cytuno.

### 3.2. Meysydd i’w gwella

Mae Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol wedi nodi rhai meysydd allweddol drwy gydol y flwyddyn. Mae llawer o Ganolfannau’n cydymffurfio’n llawn, ond mae hyn yn adlewyrchu’r math o gamau gweithredu/gwella sy’n cael eu gosod gan Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol ar adroddiadau samplu.

- Anfon diweddariadau i’r Ganolfan gyda gwybodaeth am staff yn gadael/ymuno â’r timau asesu.
- Tystiolaeth i ddangos bod gan staff y Ganolfan wybodaeth am y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddarparu’r cymhwyster.
- Sicrhau bod cofrestru ar y llwybrau gwahanol yn cyd-fynd yn gywir â’r asesiad a gwblhawyd gan ddysgwyr.
- Rhoi adborth cyfunol manwl i ddysgwyr ar yr astudiaethau achos fel bod modd cyfiawnhau’r marciau a roddir yn llawn.
- Pan fydd angen addasu’r marciau, dylai’r adborth gan Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol ddangos y rhesymau dros yr addasiadau i’r marciau, a hynny’n unol â’r meini prawf marcio.
- Dylai’r rhesymeg samplu fod yn sail i’r holl gynlluniau samplu.
- Nodi matricsau cywir ar gyfer y gwahanol ffenestri samplu (fel sy’n berthnasol).
- Darparu tystiolaeth o weithgareddau safoni sy’n gysylltiedig â’r cymwysterau Craidd.

## 3.3. Pwyntiau i ganolfannau eu hystyried

- Sicrhau bod cofnodion Sicrhau Ansawdd Mewnol ac asesu yn nodi enw a rhif yr astudiaeth achos yn glir er mwyn i'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol allu cofnodi hyn yn yr adroddiad.
- Sicrhau bod adborth yr asesydd i ddysgwyr yn ddigon manwl a datblygiadol i gyfiawnhau sut mae marciau wedi cael eu dyfarnu.
- Sicrhau bod adborth Sicrhau Ansawdd Mewnol i aseswyr yn ddigon manwl a datblygiadol i gyfiawnhau sut mae penderfyniadau Sicrhau Ansawdd Mewnol wedi cael eu gwneud, a lle mae marciau'n cael eu haddasu, bod cyfiawnhad llawn dros hyn.
- Sicrhau bod manylion aelodau newydd o staff yn cael eu cyfleu'n glir i'r swyddfa gan ddefnyddio'r ffurflen Diweddaru Canolfan cyn i'r aelod newydd o staff ddechrau asesu. Bydd angen i ganolfannau anfon CVs a chopïau o dystysgrifau'r aelodau newydd hyn o staff fel y gellir eu cymeradwyo.
- Sicrhau bod holl wybodaeth y Ganolfan yn gywir ac yn gyfredol.
- Awgrymir bod staff y ganolfan yn gloywi eu dealltwriaeth o'r arweiniad a ddarperir yn nogfennau allweddol y cymhwyster Craidd a Chanllawiau'r Ganolfan Asesu a Sicrhau Ansawdd sydd ar gael ar y wefan, (mae canllawiau penodol ar arferion gorau ar gael yn adran 1.4).
- Sicrhau bod y tîm asesu a Sicrhau Ansawdd Mewnol yn deall y dylent fod ar gael ar gyfer gweithgareddau wedi'u cynllunio (ymweliadau wyneb yn wyneb ac o bell) ac y gall y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol arsylwi gweithgareddau asesu/Sicrhau Ansawdd Mewnol ar gyfer dysgwyr sydd heb gwblhau eto.
- Deall bod yr holl benderfyniadau ynghylch newid statws y Ganolfan o ran hawlio tystysgrifau yn cael eu gwneud gan y Swyddfa Ansawdd ac nid gan y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol.